

Cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg – Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Cefndir:

I gefnogi darparwyr dysgu seiliedig ar waith i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac i roi hyder gyda sut y gellir ac y dylid cofnodi gweithgareddau a gwblheir yn Gymraeg ac yn ddwyieithog ar LLWR; mae'r canllawiau canlynol yn rhoi enghreifftiau a senarios o ddysgu ar waith a sut y byddent yn berthnasol i'r Cofnod Dysgu Gydol Oes (LLWR).

Nid yw'r enghreifftiau yn cynnwys pob senario bosib gan roi dim ond syniad o sut y byddai modd annog ymgysylltiad dysgwyr gydag ystod o agweddau ac amrywiol sgiliau iaith Gymraeg. Gellir ymgorffori elfennau iaith Gymraeg yn y profiad dysgu ar wahanol lefelau i ymateb i anghenion y dysgwyr ac i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ychwanegol yn helpu darparwyr i benderfynu pa lefel mynediad yw'r un mwyaf priodol i'w chofnodi ar gyfer dysgwyr unigol yn y maes LA 26 ar LLWR.

(Dalier sylw: Defnyddir meysydd C1 a B1 i benderfynu ar lefel y codiad cyllid sydd ar gael ar gyfer darpariaeth a gyflwynir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.)

E1: Pob dysgu ac asesu yn Saesneg yn unig.

Mae gan Ddysgwr A ychydig iawn neu ddim sgiliau iaith Gymraeg o gwbl. Nid yw'r dysgwr eisiau ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd yn Gymraeg ac mae'n gyndyn o gael unrhyw ymgysylltu drwy'r Gymraeg heblaw am ymgysylltu achlysurol a chyfyngedig.

Yn ystod y cyfnod dysgu mae'r dysgwr mewn cysylltiad â'r iaith drwy negeseuon a deunydd dwyieithog etc. Mae'r dysgwr yn dod yn ymwybodol o'r iaith a'i rôl yn hanes a diwylliant Cymru. Wrth i'r dysgu ddatblygu, mae'r asesydd yn edrych eto ar botensial ystyriaethau iaith Gymraeg i fod yn rhan o'r dysgu i annog mwy o gyswllt a gwerthfawrogiad o'r iaith.

Nodiadau E1:

- *Nid yw ychydig o Gymraeg achlysurol fel cyfarchion syml yn golygu y dylid cofnodi'r gweithgaredd fel dim mwy nag E1.*
- *Er nad yw'r dysgwr eisiau, neu mae'n methu â chael ei asesu na chyflawni unrhyw ddysgu yn Gymraeg, dylai rhai deunyddiau a gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith fod ar gael i'r dysgwr ynghyd ag anogaeth i'w hadolygu ac i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o rôl yr iaith yng Nghymru ac yn y gweithle.*

B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach iawn o'r dysgu. Asesu yn Saesneg yn unig.

Mae Dysgwr B wedi astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ond mae ganddi eirfa brin a hyder isel yn ei sgiliau iaith. Nid oes ganddi'r sgiliau i gael ei hasesu yn Gymraeg ond mae'n gwerthfawrogi'r gwerth posib o fod ag ychydig o sgiliau iaith sylfaenol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae'r dysgwr yn cael ei pharu ag asesydd sydd â sgiliau iaith Gymraeg ac er bod pob asesiad drwy'r Saesneg, mae peth o'r cyswllt yn cynnwys elfennau yn Gymraeg sy'n cyfrannu at y profiad dysgu; mae'r rhain yn berthnasol i'r cymhwyster. Cofnodir y rhain ym mhortffolio tystiolaeth y dysgwr.

Mae Dysgwr C yn cwblhau cymhwyster lefel 3 yn y sector lletygarwch. Mae ganddo gymhwyster TGAU mewn Cymraeg Ail iaith ond dim hyder i gwblhau cyfran sylweddol o'i ddysgu drwy'r Gymraeg a thra bydd yn gweithio mewn amgylchedd lle mai Saesneg yw'r brif iaith, nid oes llawer o gyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w bortffolio dysgu yn Gymraeg. Nid oes gan yr asesydd ddim neu ond ychydig o sgiliau iaith Gymraeg.

Cyflwynir taflenni gwaith a gweithgareddau yn Gymraeg i'r dysgwr sy'n amlygu geirfa a brawddegau perthnasol yn y diwydiant wrth ddelio gyda chwsmeriaid. Mae'r tasgau'n cynnwys gweithgareddau i'r dysgwr eu cyflawni sy'n ychwanegu at y profiad dysgu. Adolygir y gweithgareddau gan swyddog cymorth gyda sgiliau iaith Gymraeg priodol. Anogir y dysgwr i roi cynnig ar rai elfennau sgiliau hanfodol cyfrwng Cymraeg, ar lefel sy'n briodol i'w sgiliau iaith. Cofnodir y gweithgareddau fel tystiolaeth o blaid cofnodi fel B3.

Nodiadau B3:

- *Dylid ei ddefnyddio lle nad oes yr un o'r asesiadau yn Gymraeg ond lle mae ychydig o'r sgwrsio / darparu yn Gymraeg.*
- *Nid yw ychydig o ddefnydd o Gymraeg achlysurol yn ddigon i gofnodi fel B3.*
- *Angen cyswllt yn Gymraeg rhwng yr asesydd / darlithydd / athro neu athrawes / swyddog cymorth a'r dysgwr.*
- *Byddai tystiolaeth y portffolio yn Saesneg a phob asesiad yn cael ei wneud yn Saesneg.*
- *Os nad oes gan yr asesydd sgiliau iaith Gymraeg, gallai'r dysgwr dderbyn gweithgareddau priodol i'w cwblhau yn Gymraeg.*
- *Os oes gan y dysgwr rai sgiliau iaith Gymraeg ond yn gyndyn o gwblhau asesiadau neu ran o'u dysgu yn Gymraeg; dylid annog y dysgwr i gyfranogi drwy gynnwys elfennau iaith Gymraeg yn y profiad dysgu.*

B2: Cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. defnyddir Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn sawl agwedd ar y gweithgareddau dysgu, ond nid ym mhob un. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond gallai peth fod yn Gymraeg hefyd.

Mae Dysgwr D yn cwblhau cymhwyster lefel 3 yn y sector adeiladu. Mae ganddi gymhwyster TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf, yn rhugl yn ei Chymraeg ond yn gyndyn o gwblhau asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg. Mae'r dysgwr yn gweithio mewn amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol. Mae'r asesydd yn gyffyrddus yn siarad â'r dysgwr yn Gymraeg ond yn gyndyn o gwblhau asesiadau ffurfiol a chofnodi gweithgareddau yn Gymraeg.

Mae peth o'r cyswllt rhwng y dysgwr a'r asesydd yn digwydd yn Gymraeg a rhai gweithgareddau sy'n cyfrannu at y dysgu'n cael eu gwneud yn Gymraeg.

Cyflwynir taflenni gwaith a gweithgareddau i'r dysgwr yn Gymraeg, sy'n amlygu geirfa a brawddegau perthnasol a ddefnyddir yn y diwydiant y gallai eu defnyddio wrth siarad â chwsmeriaid etc. Er bod pob asesiad ysgrifenedig yn cael eu gwneud yn Saesneg, mae cyfran helaeth o'r cyswllt gyda'r asesydd yn Gymraeg.

Mae Dysgwr E wedi penderfynu gwneud prentisiaeth mewn gofal cwsmer wrth weithio i gwmni manwerthu. Mae'n rhugl yn Gymraeg er yn gweithio mewn ardal ac mewn amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg ond yn achlysurol.

Er nad yw'n defnyddio'r Gymraeg gyda'i deulu a'i ffrindiau, mae'r dysgwr yn rhugl ond nid oes ganddo'r hyder ac mae'n gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg yn ei ddysgu. Ar ôl paru'r dysgwr ag asesydd sy'n gallu siarad Cymraeg, mae'r dysgwr yn cael ei gyflwyno i weithgareddau yn Gymraeg ac mae'r asesiadau'n cynnwys elfennau o Gymraeg. Wrth i'r dysgwr ddod yn ei flaen, cyflwynir elfennau ychwanegol yn Gymraeg ac mae'r dysgwr yn dechrau cwblhau asesiadau ffurfiol yn Gymraeg. Mae rhai o'r trafodaethau sy'n cyfrannu at yr asesiadau'n cael eu recordio ac mae'r ffeil sain yn cael ei chadw ym mhortffolio tystiolaeth electronig y dysgwr.

Mae gan Ddysgwr F gymhwyster TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf ac yn gweithio mewn amgylchedd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol gyda chydweithwyr, plant a rhieni; ond nid yw ei asesydd yn siarad Cymraeg. Mae'r asesydd yn arsylwi'r dysgwr yn defnyddio Cymraeg fel rhan o'i waith beunyddiol, ond mae pob trafodaeth ac asesiad ysgrifenedig yn cael eu gwneud yn Saesneg. Oherwydd bod y dysgwr yn cael ei arsylwi'n gweithio yn Gymraeg a chwblhau meini prawf ei gymhwyster yn Gymraeg, ond nid yw dros 50% o'r gwaith yn Gymraeg, cofnodir y gweithgaredd dysgu fel B2.

Nodiadau:

- *Os cafodd unrhyw ran o dystiolaeth y portffolio ei chwblhau yn Gymraeg, gan gynnwys asesu llafar, byddai hyn yn atgyfnerthu y dylid ei gofnodi fel B2.*
- *Byddai hyn yn cynnwys defnyddio cryn dipyn o Gymraeg yn y dysgu a gallai gynnwys rhai asesiadau wedi'u cwblhau yn Gymraeg.*
- *Os yw dystiolaeth y portffolio yn Saesneg ond mae'r cwbl neu'r rhan fwyaf o'r sgwrsio / darparu wedi bod yn Gymraeg, gellid ei gofnodi fel B2.*
- *Y cwbl neu'r rhan fwyaf o'r darparu yn Gymraeg ond yr asesu yn Saesneg.*

B1: Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50 y cant o'r asesu ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cyflawni'r canlyniad yn defnyddio unrhyw fethodoleg addysgu briodol.

Mae Dysgwr G wedi astudio pob un o'i chymwysterau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn astudio ar gyfer cymhwyster gofal plant lefel 3. Er ei bod wedi'i chyflogi mewn lleoliad gofal plant cyfrwng Saesneg yn bennaf, mae'n gwerthfawrogi pa mor werthfawr y gallai cadw ei sgiliau iaith Gymraeg fod pe bai'n symud at gyflogwr arall neu'n datblygu ei gyrfa ymhellach.

Mae'r dysgwr yn cael ei pharu ag asesydd sy'n gallu cwblhau'r holl asesiadau ac adolygiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. I gefnogi datblygu sgiliau iaith Saesneg a Chymraeg, mae rhai taflenni gwaith a gweithgareddau dysgu wedi'u cwblhau yn Saesneg neu'n ddwyieithog, ond mae rhai asesiadau wedi bod yn Gymraeg. Er mai Saesneg a siaredir yn bennaf yn y lleoliad, mae rhai o'r rhieni a'r plant sy'n siarad Cymraeg wedi cyfrannu at y profiad dysgu ac wedi rhoi cyfle ar gyfer arsylwi'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Nid oes gan Ddysgwr H unrhyw gymhwyster iaith Gymraeg ffurfiol ond mae wedi astudio Cymraeg fel iaith gyntaf i lefel TGAU. Mae'n astudio ar gyfer cymhwyster trin gwallt ac yn cael ei chyflogi mewn ardal lle mae llawer o'r cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. Mae ei chyflogwr yn ei hanog i ymateb i gwsmeriaid yn iaith eu dewis. Gyda chymorth gan asesydd sy'n siarad Cymraeg, cyflwynir elfennau yn Gymraeg i'r dysgu ac yn ystod asesiadau. Mae'r dysgwr yn cael ei harsylwi'n llafar yn Gymraeg a chwblheir rhai o'r asesiadau yn Gymraeg. O ganlyniad mae'r dysgu'n mynd dros y trothwy 50% o asesu drwy'r Gymraeg. Mae'r dysgwr yn cynnal ei sgiliau cyfathrebu llafar yn Gymraeg.

Mae Dysgwr I yn siaradwr Cymraeg rhugl ond heb siarad Cymraeg ers gadael yr ysgol. Mae ei rieni a'i ffrindiau'n siarad Saesneg. Mae'n astudio ar gyfer prentisiaeth yn y sector cyfryngau ac nid yw ei gyflogwr wedi gofyn iddo siarad Cymraeg na defnyddio Cymraeg yn y gweithle. Mae'r asesydd yn gwneud y dysgwr yn ymwybodol bod sector cyfryngau cyfrwng Cymraeg cryf yng Nghymru lle byddai siarad Cymraeg yn fantais ond mae'r dysgwr i ddechrau'n teimlo ei fod eisoes yn siarad Cymraeg ac na fyddai dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o ddim mantais bellach iddo.

Mae'r asesydd yn siaradwr Cymraeg ac yn cyflwyno elfen Gymraeg i'r dysgu gan annog y dysgwr i ymateb yn Gymraeg yn ystod asesiadau. Cyflwynir tystiolaeth ysgrifenedig ac asesiadau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Wrth i'r dysgwr ddod yn ei flaen a magu mwy o hyder, mae mwy o gyswllt yn digwydd yn Gymraeg.

Nodiadau:

- *I fod yn gymwys, rhaid i 50% o'r asesu o leiaf fod yn Gymraeg.*
- *Gallai'r asesu fod yn ysgrifenedig neu'n llafar.*
- *Mae angen i'r darparwr fod yn gyffyrddus y medrant ddangos tystiolaeth o'r iaith asesu.*
- *Y rhan fwyaf o'r dysgu wedi'i gwblhau yn Gymraeg ac mae adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i gefnogi'r dysgu, yn enwedig yn yr agweddau a aseswyd yn Gymraeg.*

C1: Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg a'r holl asesu ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Dysgwr J yn gynorthwy-ydd addysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n siaradwr Cymraeg rhugl ond mae ganddi rai amheuon wrth ddarllen neu ysgrifennu yn Gymraeg er bod ei sgiliau iaith Saesneg yn dda. Mae ei chyflogaeth yn dibynnu ar fod yn gallu siarad Cymraeg ac mae'n gwybod wrth iddi dderbyn mwy o gyfrifoldeb yn y gweithle y bydd gofyn iddi ysgrifennu a chyfathrebu gyda rhieni yn Gymraeg.

Mae'n cael ei pharu ag asesydd sy'n siarad Cymraeg ac anogir y dysgwr i gwblhau pob asesiad yn Gymraeg; cefnogir hyn gan ddeunyddiau dysgu yn Gymraeg gyda rhai deunyddiau cyfrwng Saesneg i gefnogi'r dysgu. Mae pob asesiad wedi'i wneud yn Gymraeg; mae'r dysgwr hefyd wedi cwblhau'r elfennau sgiliau hanfodol yn Gymraeg. Ar ddiwedd y dysgu, mae gan y dysgwr fwy o hyder mewn defnyddio ei Chymraeg mewn lleoliad mwy ffurfiol.

Mae Dysgwr K yn siaradwr Cymraeg rhugl ac yn defnyddio Cymraeg pob dydd fel ei phrif gyfrwng i gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau. Wrth gwblhau cymhwyster lefel 3 mewn rheoli busnes, mae'n gwybod y bydd angen iddi fod yn hyderus yn ei Saesneg a'i Chymraeg i roi'r cyfle gorau posib iddi wrth gystadlu am swyddi yn y dyfodol. Byddai'n well ganddi gwblhau pob asesiad ac ysgrifennu ffurfiol yn Gymraeg ac mae asesydd sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi ei chais i wneud hyn. Anogir y dysgwr i gwblhau'r elfen sgiliau hanfodol yn Saesneg a Chymraeg, ac i gefnogi'r prif gymhwyster mae'r dysgwr yn cwblhau pob asesiad sydd ar gael yn Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodiadau:

- *Os oes asesiad ar gael yn Gymraeg, dylid cwblhau'r asesiad hwnnw yn Gymraeg.*
- *Os nad yw asesiad unigol ar gael yn Gymraeg, y disgwyl yw y byddai'r holl ddysgu tuag at yr asesiad hwnnw wedi'i wneud yn Gymraeg gyda pheth cynnwys Saesneg mewn rhai achosion i gynorthwyo paratoi am yr asesu.*
- *Y dysgu wedi'i gwblhau yn Gymraeg ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i gefnogi'r holl ddysgu.*
- *Rhaid i bob asesiad sydd ar gael, ar gyfer pob gweithgaredd ar wahân, fod yn Gymraeg os yw'r dysgu i gael ei ystyried i fod yn C1.*

Gwybodaeth ychwanegol a dogfennau polisi:

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010); Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr (2017) Strategaeth y Gymraeg.

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2018/19 – llawlyfr cymorth i ddarparwyr dysgu.

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/180502-llwr-manual-2018-19-v1.pdf>